




# Ysgol Peirianneg

## Rhaglenni Gradd **Israddedig**

**www.caerdydd.ac.uk/peirianneg**

# Croeso



## Cyrsiau achrededig

Mae pob un o'n rhaglenni gradd wedi cael ei hachredu gan y sefydliadau proffesiynol perthnasol.

"Gwnaeth y cyfleusterau argraff fawr arna i. Mae'r labordai'n drawiadol iawn ac rwyf wrth fy modd yn gweithio ynddyn nhw."

**Zuzanna Stone**




## Ymchwil o safon fyd-eang

Mae'r Ysgol Peirianneg yn enwog yn rhyngwladol am effaith ei hymchwil a chafodd ei henwi yn y safle **cyntaf** yn y DU ar gyfer effaith ymchwil.

Ffynhonnell: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014

## Cyrsiau hyblyg

Mae ein rhaglenni gradd yn cynnig dyfnder, ehangder a hyblygrwydd gyda chyfleoedd i weithio mewn diwydiant ac astudio dramor.



# Cyflogadwyedd uchel

Roedd **97%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu wneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.

Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Yr Arolwg Hynt Graddedigion Diweddaraf 2017/18 a gyhoeddwyd gan HESA ym mis Mehefin 2020.

# Cyfleusterau rhagorol

Rydym ni wedi buddsoddi yn ein cyfleusterau astudio, cymorth a chymdeithasol sy'n golygu y byddwch yn elwa ar yr amgylchedd gorau posibl i ddysgu a llwyddo ynddo.





"Byddwch yn cwrdd â thiwtoriaid personol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyntaf, sy'n system gymorth academaidd a chymdeithasol wych."

**Nadeem Goussouss**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Dewis Caerdydd | 2 |
| Pam yr Ysgol Peirianneg? | 4 |
| Ein cyfleusterau | 6 |
| Gwella eich profiad | 8 |
| Eich taith ddysgu | 10 |
| Y Flwyddyn Sylfaen | 12 |
| Y Rhaglen Sylfaen Ryngwladol | 13 |
| Cysylltiadau â Diwydiant | 14 |
| Ein rhaglenni gradd | 15 |
| • Peirianneg Bensaernïol | 16 |
| • Peirianneg Sifil | 17 |
| • Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol | 18 |
| • Peirianneg Drydanol ac Electronig | 19 |
| • Peirianneg Integredig | 20 |
| • Peirianneg Fecanyddol | 21 |
| • Peirianneg Feddygol | 22 |
| Ymchwil sy'n cael effaith | 23 |
| Prifddinas | 24 |
| Prifysgol flaenllaw | 25 |
| Byw yng Nghaerdydd | 26 |
| Ceisiadau | 27 |
| Sut i ddod o hyd i'r Ysgol | 29 |

# Dewis Caerdydd

Rydym yn addysgu arloeswyr y dyfodol, gan weithio gyda diwydiant, y byd academaidd, a'r llywodraeth i fynd i'r afael â heriau cymdeithas a gwneud ein byd yn lle gwell i fyw ynddo.





Rydym yn ysgol peirianneg flaenllaw, ac yn cynnal ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ac addysg sy'n gosod myfyrwyr wrth wraidd y profiad dysgu hefyd.

Croeso i Ysgol Peirianneg Prifysgol Caerdydd. Rydym yn falch iawn bod gennych ddiddordeb mewn astudio gyda ni.

Mae'r byd yn newid, a pheirianwyr yw'r rhai sy'n gyfrifol am lawer o'r datblygiad hwn. Drwy ddefnyddio egwyddorion mathemateg a gwyddoniaeth, mae peirianwyr yn meddwl am atebion i broblemau mwyaf technegol a chymdeithasol y byd.

Mae'r ystod eang o ddisgyblaethau ym mae maes peirianneg yn golygu waeth beth yw eich diddordebau, mae'n sicr bod maes a fydd yn ddeniadol neu o ddiddordeb i chi. Os ydych yn hoffi creu, cynllunio, adeiladu a bod ar flaen y gad ym maes technoleg, mae lle ar eich cyfer yn y sector peirianneg.

Os byddwch yn dewis astudio yn yr Ysgol Peirianneg, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn eich helpu i wireddu eich potensial.

Mae gennym gymuned fywiog a rhyngwladol o fyfyrwyr a staff, a byddwch yn cael eich cefnogi gan ein darlithwyr brwdfrydig, ein tiwtoriaid gofalgar a grŵp bywiog o gydfyfyrwyr.

Mae ein rhaglenni gradd achrededig yn cynnig dyfnder, ehangder a hyblygrwydd gyda chwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiwydiant sy'n cynnwys sesiynau a phrosiectau ymarferol er mwyn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer gyrfa a dyfodol llwyddiannus.

Gobeithio y byddwch yn gallu ymuno â ni yng Nghaerdydd yn fuan, ond am y tro, dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich astudiaethau!

**Yr Athro Jianzhong Wu**
Pennaeth yr Ysgol



# Pam yr Ysgol Peirianneg?

Os byddwch yn dewis astudio gyda ni, byddwch yn graddio gyda llawer mwy na gradd. Ein nod yw cynhyrchu peirianwyr medrus iawn sy'n arweinwyr, yn gynllunwyr, yn chwaraewyr tîm ac yn gyfathrebwyr eithriadol.



Byddwn yn annog eich sgiliau technegol a phroffesiynol yn ogystal â chreadigrwydd, er mwyn i chi allu cyflawni pethau gwych yn eich gyrfa. Dyma ein pum prif reswm dros astudio yn yr Ysgol Peirianneg:

## 1.

### Cyrsiau hyblyg

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau achredEDIG, felly mae gennych yr hyblygrwydd i ddilyn eich diddordebau a'ch dyheadau o ran gyrfa.

Mae ein cyrsiau'n cynnwys saith maes gwahanol i beirianneg gan gynnwys pensaernïol, sifil, sifil ac amgylcheddol, trydanol ac electronig, integredig, meddygol a mecanyddol. Ym mhob rhaglen gallwch ddewis rhwng cymhwyster MEng neu BEng.

Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau gyda Blwyddyn mewn Diwydiant sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, a'r cyfle i wella'ch sgiliau iaith gyda Blwyddyn yn Ewrop. Mae ein cyrsiau MEng Rhyngwladol yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr astudio gydag un o lawer o'n prifysgolion partner y tu allan i Ewrop am un semester.

## 2.

### Cysylltiadau â diwydiant

Mae cynnwys ein cwrs wedi cael ei ddylunio gyda mewnbwn gan sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol blaengar er mwyn sicrhau eich bod yn cael profiad o ddefnyddio offer a thechnegau masnachol cyfredol. Bydd hyn yn cryfhau eich sgiliau proffesiynol ac yn sicrhau eich bod yn barod ar gyfer ymarfer proffesiynol, yn ogystal â gwella eich cyflogadwyedd drwy ymgysylltu'n gyson â gweithwyr proffesiynol gweithredol.

Mae ein cysylltiadau â'r diwydiant yn cefnogi darlithwyr a siaradwyr sy'n ymweld o'r diwydiant i roi darlithoedd rheolaidd ar eu meysydd arbenigol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i fyfyrwyr glywed arbenigwyr yn siarad am bynciau sy'n berthnasol i'w graddau, ac mae'n rhoi cipolwg iddynt o weithio yn y diwydiant.

Efallai y cewch gyfle i weithio gyda busnesau i ddatrys problemau presennol go iawn drwy brosiectau a lleoliadau gwaith. Mae llawer o'n myfyrwyr wedi cael swyddi gyda'n cysylltiadau diwydiannol ar ôl graddio.

Mae ein cysylltiadau busnes hefyd yn cefnogi mentrau a arweinir gan fyfyrwyr, fel Peirianwyr heb Ffiniau a'r Gymdeithas Beirianneg.

## 3.

### Dysgu ymarferol

Mae cynnig cynnwys ymarferol ar gyrsiau yn rhan allweddol o'n proses addysgu. Caiff y ddamcaniaeth rydych yn ei dysgu ei hategu drwy ei defnyddio'n ymarferol yn y labordy ac mewn gwaith ymchwil, teithiau maes, dosbarthiadau dylunio a phrosiectau a chynlluniwyd drwy ymgynghori â phrif gyflogwyr.

Cynlluniwyd ein hamgylchedd dysgu er mwyn helpu i ddatblygu eich meddwl peirianneg a'ch sgiliau proffesiynol. Byddwch yn cwblhau gwaith grŵp ac aseiniadau unigol er mwyn eich helpu i feithrin sgiliau arwain, trefnu, gweithio mewn tîm a chyfathrebu pwysig.

Mae ein meysydd addysgu a'n labordai yn cynnwys y cyfarpar a'r technolegau diweddaraf er mwyn i chi allu cael y wybodaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer y farchnad swyddi heddiw.

## 4.

### Cefnogaeth i fyfyrwyr

Rydym yn cynnig amgylchedd gofalgar, sydd â chyfarpar da, gyda darpariaethau pwrpasol i fyfyrwyr sydd angen cymorth academaidd neu bersonol.

Er mwyn eich helpu i ymgartrefu ym mywyd y Brifysgol, dyrennir aelod o staff academaidd i chi fel tiwtor personol. Bydd hefyd gennych fynediad at un o'n mentoriaid myfyrwyr. Bydd eich tiwtor a'ch mentor yno i'ch cynghori ar faterion academaidd, materion nad ydynt yn academaidd a materion personol mewn modd cyfrinachol ac anffurfiol, pryd bynnag y bydd angen ychydig o arweiniad arnoch.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Mathemateg yn cynnig y cyfle i bob myfyriwr wella ei sgiliau mathemategol ac ystadegol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig sesiynau galw heibio anffurfiol a hyblyg, apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a mynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu.

Mae gennym bolisi cwricwlwm hygyrch hefyd sy'n sicrhau bod addysgu a dysgu ar gael i bob myfyriwr, gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau.

## 5.

### Rhagolygon gwych o ran gyrfa

Mae galw mawr am ein graddedigion gyda 97% mewn swyddi hynod fedrus a / neu astudiaeth bellach 15 mis ar ôl i'w cyrsiau ddod i ben (DLHE 2017/18).

Mae ein myfyrwyr yn mynd ymlaen i weithio mewn amrywiaeth o feysydd a rolau yn y diwydiant, yn ogystal â sectorau eraill sy'n gwerthfawrogi sgiliau creadigol, dadansoddol a datrys problemau megis y sector cyhoeddus neu faes cyllid. Ymhlith cyrchfannau graddedigion mae Arup, BAE Systems, Bosch, BP, Ford, Network Rail, Nokia, Npower a Rolls-Royce. Bydd gennych hefyd sgiliau cyflogadwy hanfodol y mae sectorau fel yswiriant, cyllid, addysg a chynllunio yn chwilio amdanynt. Mae eraill yn mynd ymlaen i gwblhau astudiaeth bellach ym Mhrifysgol Caerdydd a sefydliadau blaenllaw eraill.



# Ein cyfleusterau

Rydym wedi sicrhau bod ein hamgylchedd yn diwallu eich holl anghenion er mwyn eich helpu i gyflawni eich potensial.



# Rydym yn defnyddio ein cyfleusterau o'r radd flaenaf i gynnig profiad addysgu modern, gan alluogi myfyrwyr i drin a thrafod prosiectau peirianneg a dylunio mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

## Cyfleusterau'r ysgol

Byddwch yn astudio yn Adeiladau'r Frenhines ar Gampws Parc Cathays. Diolch i'r lleoliad hwn, mae myfyrwyr a staff yn elwa o fynediad hawdd i ganol y ddinas, y prif ganolfannau trafnidiaeth, gweddill y Brifysgol, neuaddau preswyl ac Undeb y Myfyrwyr.

Mae gennym amrywiaeth eang o labordai addysgu ac ymchwil mawr â digonedd o gyfarpar, darlithfeydd, ystafelloedd cyfrifiaduron, ein bwyty ein hun, siop goffi a llyfrgell o'r radd flaenaf.

Mae hefyd gennym ofod dysgu mawr a hyblyg o'r enw'r Fforwm, sydd â lleoedd ar gyfer hyd at 120 o fyfyrwyr a staff i gymryd rhan mewn grŵp dysgu, astudiaeth sengl, neu i gymdeithasu â ffrindiau.

Mae ein holl ddarlithfeydd, swyddfeydd a labordai yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae mannau parcio i bobl anabl a thoiledau hygyrch ar gael hefyd.

## Gwasanaethau Llyfrgell

Mae Llyfrgell Trevithick yn darparu adnoddau gwybodaeth ar gyfer peirianneg, cyfrifiadureg a gwybodeg, ffiseg a seryddiaeth.

Mae modd cael mynediad at y llyfrgell a chyfleusterau cyfrifiadurol rhwng 8:00 a 17:00 yn ystod yr wythnos a 24/7 ar benwythnosau. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys ystafelloedd TG gydag argraffwyr a chyfleusterau astudio grŵp.

Gallwch fenthyg hyd at 35 o eitemau ar unrhyw adeg hyd at dair wythnos. Mae llawer o lyfrau a chyfnodolion ar gael ar ffurf electronig hefyd.

Mae llyfrgellwyr pwnc yno i'ch helpu gyda'ch holl anghenion astudio ac ymchwil. Maent hefyd yn cynnal gweithdai ynghylch chwilio am wybodaeth ac ymchwil llenyddiaeth.

## Cyfleusterau Allweddol

Mae'r cyfleusterau labordy diweddaraf ym meysydd peirianneg ddinesig, strwythurol, amgylcheddol, mecanyddol, meddygol, trydanol ac electronig yn ein Hysgol.

Mae'r cyfarpar a'r technolegau addysgu diweddaraf yn y darlithoedd a'r labordai i alluogi myfyrwyr i feithrin y sgiliau damcaniaethol ac ymarferol sydd eu hangen arnynt yn y farchnad swyddi ar hyn o bryd.

Mae staff pob un o'r labordai yn weithwyr technegol medrus a phrofiadol a chaiff ei arwain gan aelodau o staff academaidd.

Ma ein prif labordai'n cynnwys:

- Profion tyrbin nwy
- Labordai gweithgynhyrchu ychwanegol
- Labordy goleuadau
- Labordy perfformiad strwythurol
- Canolfan ymchwil hydro-amgylcheddol
- Cyfleuster Ymchwil Biofecaneg Cyhyrysgerbydol
- Labordy modelu gwybodaeth adeiladu a realiti rhithwir

Mae ein labordai a'n cyfleusterau eraill yn cynnwys:

- Nanodechnoleg gyda chyfleusterau ystafell lân integredig
- Amledd uchel
- Prosesu signalau digidol
- Foltedd uchel
- Deunydd swmp a nodweddu graddfa micro/nano
- Dadansoddi symudiad
- Allgyrchu
- Hylosgi
- Allyriadau acwstig
- Cydberthynas delweddau digidol a strwythurau trwm.

Mae gan yr Ysgol ystafell ag argraffwyr 3D ochr yn ochr â chyfleusterau yn labordy EVINA, cyfleuster gweithdy i fyfyrwyr.

## Cyfleusterau TG

Rydym yn cynnig cyfleusterau cyfrifiadura helaeth i'n myfyrwyr, a gellir defnyddio'r rhain i gael gafael ar ddeunydd cyfeirio penodol a chael mynediad i rwydwaith y Brifysgol. Rydym hefyd yn darparu ar gyfer unrhyw anghenion cyfrifiadurol arbenigol sydd eu hangen i wneud eich astudiaethau peirianneg, fel pecynnau meddalwedd penodol.

Rydym ni'n cynnig ystod o ddeunydd ac adnoddau dysgu ar Learning Central. System e-ddysgu ar y rhyngrwyd yw hon a gall myfyrwyr ei defnyddio unrhyw le, ar unrhyw adeg. Mae wi-fi ar gael ym mhob rhan o'r campws.

## Cefnogaeth i fyfyrwyr

Bydd gennych diwtor personol a fydd ar gael i gynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth fugeiliol i'ch helpu chi i fyfyrio ar eich datblygiad academaidd a phersonol trwy gydol eich astudiaethau. Mae eich tiwtor yna i'ch helpu os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau. Gall hefyd gynnig help, anogaeth ac adborth ynghylch eich perfformiad ar y cwrs.

Rydym hefyd yn cynnal Cynllun Mentora Myfyrwyr lle gall israddedigion yn eu blwyddyn gyntaf gael cyngor a chefnogaeth fugeiliol gan fyfyrwyr peirianneg sydd wedi bod yno ers peth amser.

Os oes angen cymorth mwy arbenigol, mae gan Wasanaethau Cymorth Myfyrwyr y Brifysgol, gwnselwyr hyfforddedig wrth law i gynnig arweiniad ar amrywiaeth o faterion.

Mae darlithwyr eich cwrs bob amser wrth law er mwyn helpu i ateb ymholiadau sy'n benodol i'r pwnc ac i gefnogi eich dysgu.

Mae Prifysgol Caerdydd hefyd yn cynnig Gwasanaeth Cymorth Mathemateg galw heibio lle gall myfyrwyr ag unrhyw gwestiwn mathemategol gael help naill ai ar lefel un-i-un neu mewn grŵp bach.

# Gwella eich profiad

Rydym yn ymrwymedig i helpu ein myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu profiad yn y Brifysgol, yn academaidd ac yn bersonol.



## Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r profiad cyffredinol, gan roi allfa i chi o'ch astudiaethau, cynnig cyfle i wneud ffrindiau newydd a chael rhwydweithiau cymorth, a chyfleoedd ar gyfer hunanddatblygiad.

### Astudio dramor

Gall astudio dramor wella eich astudiaethau academaidd a gwella eich rhagolygon o ran gyrfa. Mae hefyd yn gyfle i brofi diwylliannau a safbwyntiau eraill a rhannu profiadau bythgofiadwy. Mae'r cyfleoedd isod ar gael drwy'r Ysgol, ond mae hefyd llawer o gyfleoedd wedi'u trefnu drwy wasanaeth Cyfleoedd Byd-eang y Brifysgol.

### MEng Rhyngwladol

Mae'r rhaglen hon cynnwys treulio semester dramor yn nhrydedd flwyddyn y rhaglen yn un o sefydliadau partner yr Ysgol. Mae amrywiaeth o brifysgolion cyrchfan i ddewis ohonynt mewn lleoliadau megis Awstralia, Canada, Hong Kong, Seland Newydd ac UDA.

### Blwyddyn yn Ewrop

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys blwyddyn o fynychu sefydliad Addysg Uwch yn Ffrainc, yr Almaen neu Sbaen. Yn dibynnu ar ba wlad rydych yn dewis ar gyfer eich Blwyddyn yn Ewrop, byddwch yn dysgu'r iaith fel rhan o'ch gradd.

### Blwyddyn mewn Diwydiant

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys blwyddyn a dreuliwyd mewn gweithle proffesiynol yn cael profiad ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau'n cynnig tâl, sy'n cynnig cyfle ardderchog i ennill cyflog fydd yn helpu i gynnal eich astudiaethau.

Os nad ydych yn siŵr pa lwybr gyrfa i'w ddilyn, gall treulio blwyddyn mewn diwydiant eich helpu i wneud penderfyniadau pwysig am eich dyfodol. Mae cyflogwyr yn gweld lleoliadau fel cyfle i dreialu ymgeiswyr da i recriwtio ar gyfer swyddi graddedig, ac fe gynigir swydd raddedig i lawer o'n myfyrwyr gyda chyflogwr eu lleoliad.

### Cymdeithasau myfyrwyr a chyfleoedd allgymorth

Cymerwch ran mewn prosiectau allgymorth a chymdeithasau myfyrwyr i wella eich sgiliau peirianneg a datrys problemau, cyfrannu at gymdeithasu, gwella eich rhagolygon o ran gyrfa a mwynhau.

### Cymdeithas Peirianneg

Mae ein cymdeithas a arweinir gan fyfyrwyr yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd. Mae hefyd yn gallu eich helpu i roi cynnig ar bethau newydd ac, mewn rhai achosion, yn gallu gwella eich rhagolygon gyrfa ar gyfer y dyfodol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol ac academaidd y gymdeithas, a digwyddiadau wedi'u harwain gan ddiwydiant. Mae'r Gymdeithas Peirianneg yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, darlithoedd diwydiannol ac ymweliadau â safleoedd, sy'n rhoi cipolwg i chi ar sut brofiad bydd bod yn beiriannydd. Mae hwn yn gyfle gwych i rwydweithio hefyd.

### Cymdeithas Peirianwyr heb Ffiniau

EWB Caerdydd yw cangen myfyrwyr Caerdydd o elusen fyd-eang Peirianwyr heb Ffiniau (EWB). Ei nod yw cydweithio â chymunedau difreintiedig er mwyn gwella ansawdd eu bywyd trwy addysg a gweithredu prosiectau peirianneg cynaliadwy. Mae'r gymdeithas yn cynnig digwyddiadau cymdeithasol, trafodaethau ystyrlon ar faterion cynaliadwyedd, darlithoedd mewnweledol gan siaradwyr gwadd a gweithdai a phrosiectau.

### Cymdeithas Myfyrwyr Ysgol Pensaernïaeth Cymru (SAWSA) - y Gymdeithas Pensaernïaeth

Mae SAWSA ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb ym meysydd pensaernïaeth a dylunio. Gall aelodau fwynhau darlithoedd gwadd gan benseiri a dylunwyr proffesiynol eraill, gweithdai creadigol, teithiau braslunio ar draws dinas Caerdydd, teithiau diwrnod a digwyddiadau cymdeithasol.

### Rasio Caerdydd

Mae'r tîm rasio yn cynrychioli'r Brifysgol yn Formula Student, sef cystadleuaeth fyd-eang i fyfyrwyr a gynhelir gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE). Bob blwyddyn, maen nhw'n cystadlu â phrifysgolion o bob cwr o'r byd i ddylunio ac adeiladu car rasio un sedd. Mae ein tîm yn cynnwys myfyrwyr peirianneg o bob disgyblaeth, o israddedigion yn eu blwyddyn gyntaf i fyfyrwyr PhD.


### Mothers of Africa

Elusen Feddygol Addysgol yw Mothers of Africa. Mae'n hyfforddi staff meddygol yn yr Affrig Is-Saharaidd i ofalu am famau yn ystod beichiogrwydd a geni plant. Mae ein myfyrwyr yn cefnogi prosiect mewn lleoliad meddygol anghysbell ym Mhentref Shiyala, yn ardal Chongwe yn Sambia. Yn y gorffennol, mae ein myfyrwyr wedi cynllunio a mewnosod ystafell ddosbarth solar, gan ddarparu golau a phŵer i'r adeiladau sy'n weddill yn y ganolfan feddygol, ac wedi gosod cofnodwr data ynni i gasglu gwybodaeth am sut mae'r ynni solar yn cael ei ddefnyddio.






# Eich taith ddysgu




## Ni waeth pa raglen radd rydych yn ei dewis, caiff agweddau sylfaenol peirianneg eu haddysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau, sesiynau a phrosiectau ymarferol.

Mae ein haddysgu wedi'i drefnu mewn modylau, a byddwch yn cymryd 120 o gredydau'r flwyddyn, a fydd wedi'u rhannu'n gytbwys rhwng y ddau semester. Mae pob semester yn cynnwys 11 wythnos o addysgu, un wythnos adolygu a chyfnod arholiadau.

Gallwch gael hyd at 18 awr o ddarlithoedd, dosbarthiadau labordy a thiwtorialau wedi'u hamserlennu bob wythnos ar gyfartaledd, a bydd disgwyl i chi ychwanegu at hyn gyda'ch astudio preifat eich hun.

Defnyddir amrywiaeth o wahanol ddulliau i'ch asesu, gan gynnwys arholiadau ysgrifenedig ffurfiol, astudiaethau achos, aseiniadau a gwaith prosiect.

### Mathau o raglenni gradd

Mae nifer o opsiynau rhaglen ar gael i chi ym mhob cwrs gradd:

**Y Rhaglen MEng (Anrhydedd)**

Gradd beirianneg yw'r rhaglen MEng sy'n arwain at gymhwyster uwch na'r rhaglen BEng draddodiadol, ac mae'n gofyn am flwyddyn ychwanegol o astudio. Mae'r rhaglen yn rhannu llawer o'r tair blynedd gyntaf gyda'r rhaglen BEng berthnasol, a'r ddwy flynedd olaf yn cryfhau ac yn ehangu ar eich gwybodaeth yn eich pwnc peirianneg dewisol. Mae'r rhaglen MEng yn cynnig llwybr cyflymach, mwy uniongyrchol i statws Peiriannydd Siartredig na'r rhaglen BEng.

Gallwch ond parhau â'r rhaglen hon os byddwch yn perfformio'n dda yn ystod eich dwy flynedd gyntaf o astudio.

**Y Rhaglen BEng (Anrhydedd)**

Y rhaglen hon yw'r ffordd draddodiadol o astudio peirianneg, ac mae'n ymwneud â thair blynedd o astudio yn eich pwnc dewisol, neu bedair blynedd os byddwch yn dewis yr opsiwn Blwyddyn mewn Diwydiant. Nid yw pob peiriannydd eisiau cael statws siartredig – er enghraifft, y rhai hynny sy'n dewis agweddau penodol ar waith ymchwil, gyrfaoedd yn y Lluoedd, y sector ariannol, neu ryw fath o waith ymgynghori – ac, yn yr achosion hyn, efallai y byddai'r radd BEng yn ddewis mwy priodol na'r MEng.

Mae'n bosibl y gellir ennill statws Peiriannydd Siartredig o hyd gyda gradd BEng, ond mae'r sefydliadau proffesiynol yn gofyn i chi gymryd astudiaethau pellach.

**Y Rhaglen Blwyddyn mewn Diwydiant**

Mae'r rhaglen ryngosod yn ychwanegiad at naill ai'r rhaglen MEng neu BEng, oherwydd mae'n cynnwys blwyddyn ychwanegol o leoliad diwydiannol.

Caiff y lleoliad hwn ei wneud ar ôl i chi gwblhau eich dwy flynedd gyntaf o astudio peirianneg, felly mae'r rhaglen MEng yn cymryd pum mlynedd i'w chwblhau a'r rhaglen BEng yn cymryd pedair blynedd. Telir cyflog i chi yn ystod eich lleoliad diwydiannol.

**Y Rhaglen Blwyddyn yn Ewrop**

Mae'r rhaglen Blwyddyn yn Ewrop hefyd yn ychwanegiad at y rhaglenni MEng, ond, y tro hwn, yn hytrach na threulio blwyddyn mewn diwydiant, byddwch yn treulio blwyddyn yn mynychu sefydliad addysg uwch yn Ffrainc, yr Almaen neu yn Sbaen. Caiff eich blwyddyn yn Ewrop ei gwneud ar ôl i chi gwblhau eich tair blynedd gyntaf o astudio yng Nghaerdydd, felly bydd y rhaglen MEng yn cymryd pum mlynedd i'w chwblhau.

**Y Rhaglen MEng Rhyngwladol a'r MEng Rhyngwladol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant**

Cynllun gradd yw'r MEng Rhyngwladol. Mae ar gael ym mhob maes pwnc ac yn cynnig cyfle i fyfyrwyr fynd dramor yn ystod eu hastudiaethau. Mae'n cynnwys treulio semester yn nhrydedd flwyddyn eich rhaglen yn un o sefydliadau partner yr Ysgol y tu allan i Ewrop (er enghraifft, yn UDA, Canada, Awstralia a lleoliadau eraill). Mae'r rhaglen hon wedi'i chyflwyno i roi cyfle i fyfyrwyr gael profiad rhyngwladol, sy'n rhywbeth y mae cyflogwyr yn rhoi mwy a mwy o bwys arno.

Mae'r MEng gyda Blwyddyn mewn Diwydiant hefyd ar gael fel MEng gydag opsiwn rhyngwladol. Mae'r rhaglen newydd hon yn caniatáu i chi dreulio blwyddyn mewn diwydiant ac i dreulio semester yn astudio dramor.

## Beth yw'r gwahaniaethau rhwng rhaglenni gradd yr MEng a'r BEng?

Yr ateb syml fyddai: un flwyddyn ychwanegol o astudio. Mae'r radd MEng achrededig yn llwyr fodloni adran y gofynion hyfforddi academaidd sydd ei hangen i fod yn Beiriannydd Siartredig. Mae'r modiwlau a gyflwynir ym mlwyddyn olaf y rhaglen MEng ar lefel uwch na'r rhai hynny ar y rhaglen BEng, o ran y ffaith fod ganddynt fwy o elfennau sy'n seiliedig ar ymchwil, mwy o agweddau sy'n seiliedig ar reoli, lefel uwch o gynnwys technegol neu gyfuniad o'r rhain.

## Pa mor hawdd yw hi i drosglwyddo o raglen radd BEng i MEng?

Mae trosglwyddo'n hawdd iawn os ydych yn perfformio'n dda: bydd angen i chi ennill marc cyffredinol o 60% ar gyfer eich asesiadau ym Mlwyddyn Un a Dau. Hyd at y pwynt hwn, bydd pob agwedd ar eich addysg wedi bod yn gwmws yr un peth â'r myfyrwyr MEng, ac os byddwch yn cyrraedd y targed o 60%, byddwch yn cael eich annog i symud ymlaen i'r rhaglen MEng. Fodd bynnag, os byddwch yn credu y byddai symud o raglen MEng i BEng yn fwy priodol i'ch gobeithion gyrfaol, gall hyn gael ei drefnu'n hawdd hefyd.

## Pa bynciau Safon Uwch sydd eu hangen arnaf i astudio peirianneg?

Mae angen Safon Uwch Mathemateg arnom neu gymhwyster cyfatebol, gan gynnwys o leiaf dwy Safon Uwch arall. Nid ydym yn derbyn Astudiaethau Cyffredinol. Mae gennym gwrs Blwyddyn Sylfaen ar gyfer y rhai hynny sydd â Safonau Uwch (neu gymwysterau cyfatebol), ond sydd heb y lefel angenrheidiol ym maes Mathemateg.

## A fyddaf yn cael fy nghyfweld?

Ein polisi cyffredinol yw gwahodd pob ymgeisydd sy'n byw o fewn pellter teithio rhesymol i Gaerdydd i ymweld â'r Ysgol, cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr, a siarad â'r tiwtoriaid derbyniadau perthnasol. Drwy wneud hyn, gobeithir y gallwch wedyn wneud dewis gwybodus ynghylch ble rydych eisiau astudio.

## A yw'r Brifysgol yn dod o hyd i leoliad addas i mi ar gyfer fy Mlwyddyn mewn Diwydiant?


Bydd y Brifysgol yn helpu i gynnig amrywiaeth o leoliadau diwydiannol ac mae pobl yn cyflwyno cais amdanynt yn gystadleuol. Fodd bynnag, bydd croeso i chi hefyd ddefnyddio'ch cysylltiadau eich hun er mwyn sicrhau bod eich gobeithion yn cyd-fynd mor agos â phosibl â busnes y cwmni.

## Sut byddaf yn cael fy ariannu yn ystod fy Mlwyddyn mewn Diwydiant?

Bydd y cwmni'n eich talu'n uniongyrchol. Y cyflog blynyddol cyffredinol i fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd yw £15 mil, ond mae rhai cwmnïau'n cynnig cymaint ag £20 mil. Weithiau, bydd y cwmnïau'n cynnig rhyw fath o nawdd i'r myfyrwyr pan fyddant yn dychwelyd i'r Brifysgol. Bydd ffi is yn ystod blwyddyn ryngosod (e.e. blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn dramor). Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan Prifysgol Caerdydd.

## Pa gymwysterau mynediad sydd eu hangen arnaf i dreulio blwyddyn yn Ewrop?

Nid oes angen i chi fod yn rhugl yn Ffrangeg, Almaeneg na Sbaeneg i gyflwyno cais ar gyfer y radd gyda blwyddyn yn Ewrop. Byddwch yn cael cyfle i wella eich rhuglder drwy fodiwlau iaith yn ystod tair blynedd gyntaf eich gradd. Bydd angen gwybodaeth sylfaenol o'r iaith briodol, er enghraifft, o leiaf gradd C neu radd 4 mewn TGAU yn yr iaith briodol ar gyfer eich gwlad ddewisol.



# Y Flwyddyn Sylfaen



## Os ydych chi'n un o'r lliaws o bobl a fyddai'n hoffi bod yn beiriannydd, ond sydd heb y cymwysterau mathemategol priodol, mae gennym raglen i ddiwallu eich anghenion.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen wedi'i chynllunio'n arbennig i roi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnoch i'ch galluogi chi i ymdopi â rhaglen radd mewn peirianneg.

Er mai dim ond blwyddyn o hyd yw'r Flwyddyn Sylfaen, dylid ei hystyried fel llwybr mynediad at un o'n rhaglenni gradd. Nid yw'n flwyddyn ar ei phen ei hun; yn hytrach, mae'n rhan gychwynnol o raglen astudio sy'n arwain at radd MEng neu BEng.

Os byddwch yn llwyddo i gwblhau'r Flwyddyn Sylfaen byddwch yn symud ymlaen yn awtomatig i flwyddyn gyntaf eich rhaglen gradd ddewisol.

Os ydych yn fyfyriwr 'cartref' ar y Flwyddyn Sylfaen, byddwch yn gymwys i gael cymorth gorfodol i fyfyrwyr (cymorth gyda ffioedd hyfforddi a benthyciad i fyfyrwyr ar sail prawf modd) i dalu am bob blwyddyn o astudio yng Nghaerdydd.

### Pa fath o gymwysterau sydd eu hangen arnaf?

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at ystod eang o ddarpar ymgeiswyr. Er enghraifft, os ydych wedi pasio TGAU mewn Mathemateg ac wedi cael marciau pasio da ar eich Safon Uwch mewn pynciau nad ydynt yn fathemategol, byddai'r Flwyddyn Sylfaen yn llwybr delfrydol i chi fynd i mewn i beirianneg. Yn yr un modd, os oes gennych BTEC neu gymhwyster galwedigaethol tebyg mewn pwnc ar wahân i beirianneg, Bagloriaeth Ryngwladol neu Dystysgrif Gadael Ysgol nad yw'n cael ei chydnabod fel mynediad uniongyrchol i un o'n rhaglenni gradd, yna gallai'r Flwyddyn Sylfaen fod yn berffaith ar eich cyfer.

Weithiau, rhoddir ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr aeddfed sy'n dangos y cymhelliant, yr ymrwymiad a'r potensial sydd eu hangen i gwblhau'r Flwyddyn Sylfaen a pharhau i ennill gradd. Mewn achosion o'r fath, gellid hepgor cymwysterau ffurfiol ar ôl ystyried profiad galwedigaethol, ond byddai angen dangos ychydig o dystiolaeth o botensial mathemategol a gwyddonol.

### Strwythur y rhaglen

Cafodd y rhaglen ei chynllunio i roi cyflwyniad i fyfyrwyr o ystod eang o beirianneg, drwy fodiwlau sy'n cynnwys darlithoedd, tiwtorialau ac astudiaethau achos. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau o Fathemateg, Ffiseg a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n berthnasol i beirianneg.

Mae natur ymarferol y rhaglen yn cyferbynnu â'r ffordd y gallai pynciau o'r fath fod wedi'u cyflwyno yn yr ysgol.

Cynhelir yr asesu drwy waith prosiect, asesu parhaus ac arholiadau diwedd semester.

### Cyflwyno cais

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais UCAS, nodwch y rhaglen radd beirianneg rydych eisiau ei hastudio ar ôl y Flwyddyn Sylfaen, yn ogystal â defnyddio'r cod cwrs H101.

Noder: os byddwch yn cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen i safon foddhaol, mae'n bosib na fydd rhaid i chi ddilyn eich dewis gwreiddiol o raglen radd.

# Y Ganolfan Astudiaethau Rhyngwladol



## Gall rhaglen sylfaen gynnig llwybr mynediad arall i'ch cyrsiau israddedig.

Cynlluniwyd y rhaglen academaidd un flwyddyn o hyd hon yn arbennig i roi'r sgiliau academaidd a Saesneg sydd eu hangen arnoch i gael mynediad i astudiaethau israddedig mewn peirianneg.

### Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol

Mae ein Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol, a gaiff ei chynnal mewn partneriaeth â Grŵp Astudio, yn cynnig amrywiaeth o raglenni sylfaen a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer myfyrwyr sy'n ceisio symud ymlaen i'n cyrsiau,

Mae'r Ganolfan Astudiaethau Rhyngwladol yng nghanol ein campws a bydd yn cynnig paratoadau academaidd a sgiliau astudio i chi, yn ogystal â mynediad at amrywiaeth eang o gymorth a chyfleusterau academaidd sydd ar gael i'n holl fyfyrwyr.

### Lle a llety ar y campws wedi'u gwarantu

Os byddwch yn llwyddo i gwblhau eich rhaglen a chyflawni'r graddau angenrheidiol, gwarentir lle i chi ar amrywiaeth eang o'n cyrsiau.

Bydd pob myfyriwr sy'n astudio yn y Ganolfan Astudiaethau Rhyngwladol hefyd yn cael mynediad at lety Prifysgol Caerdydd ar y campws, cyn belled ag eich bod yn cyflwyno cais cyn y dyddiadau cau perthnasol.

### NCUK

Gellir derbyn Blwyddyn Sylfaen Ryngwladol NCUK i gael lle ar ein cyrsiau israddedig.

Os byddwch yn llwyddo i gwblhau Blwyddyn Sylfaen Ryngwladol NCUK, byddwch yna'n cael y cyfle i gyflwyno cais i Brifysgol Caerdydd lle caiff ceisiadau ei hasesu fesul achos.

Fel rhan o'r flwyddyn sylfaen, byddwch yn dewis modiwlau iaith a sgiliau astudio er mwyn eich helpu i lwyddo pan fyddwch yn dod i astudio gyda ni.

### Partneriaid eraill

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau'r DU a sefydliadau rhyngwladol eraill sy'n cynnig rhaglenni llwybr gyrfa a chânt eu hystyried ar gyfer mynediad i amrywiaeth o raglenni gradd. Os byddwch yn astudio ar raglen sylfaen neu lwybr gyrfa ac am wybod os byddwch yn gymwys i gyflwyno cais i Brifysgol Caerdydd, cysylltwch â ni.

### Gwella eich Saesneg

Os ydych wedi bodloni gofynion academaidd eich cwrs ond mae angen i chi wella lefel eich iaith Saesneg, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Saesneg er mwyn eich helpu i fodloni eich gofynion Saesneg.

### Sut i gyflwyno cais

Mae'r holl wybodaeth am y rhaglen a'r ffurflen gais ar gael yn:

**cardiff.ac.uk/cy/study/international/foundation-and-pre-masters-programmes**

neu ebost **international@caerdydd.ac.uk**

neu ffonio **+44 (0)29 2087 4432**

# Cysylltiadau â Diwydiant




## Caiff pob un o'n cyrsiau ei lywio gan gydweithrediad y diwydiant, ac maen nhw wedi'u cynllunio i roi'r offer angenrheidiol i'n graddedigion ddod o hyd i gyflogaeth ddiwydiannol a llwyddo ynddi.

Mae gennym gydberthnasau gwych ag amrywiaeth o bartneriaid diwydiannol er mwyn helpu i roi'r cysylltiadau a'r cyfleoedd y bydd eu hangen arnoch i ddechrau eich gyrfa. Mae ein cysylltiadau hefyd yn sicrhau bod ein graddau'n parhau i fod yn berthnasol a bod gan ein myfyrwyr sgiliau cyfredol sy'n berthnasol i'r diwydiant.

Rydym yn cynnig opsiynau cyfoethog ac amrywiol i chi gael profiad diwydiannol. Gallwch ddewis BEng neu MEng gyda phrofiad diwydiannol fel rhan o'ch gradd neu elwa'n fwy cyffredinol o'n cysylltiadau â'r diwydiant a gwasanaethau gyrfaoedd.

### Lleoliadau diwydiannol

Ein cysylltiadau â chyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn arwain at gyflogaeth yn aml neu leoliadau diwydiannol i lawer o fyfyrwyr israddedig.

Bydd blwyddyn mewn diwydiant yn eich galluogi i roi damcaniaeth ar waith, datblygu sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr graddedigion yn chwilio amdanynt, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael. Mae profiad diwydiannol hefyd yn cynnig y cyfle i wneud rhywfaint o arian i gynnal eich astudiaethau.

### Darlithwyr sy'n ymweld

Mae ein cysylltiadau hefyd yn darparu cymorth i ddarlithwyr a siaradwyr sy'n ymweld o'r diwydiant roi darlithoedd rheolaidd ar eu meysydd arbenigol perthnasol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i fyfyrwyr glywed arbenigwyr yn siarad am bynciau sy'n berthnasol i'w graddau, ac mae'n rhoi cipolwg iddynt o weithio yn y diwydiant.

### Mewnbwn diwydiannol

Hyd os na fyddwch yn dewis cymryd lleoliad diwydiannol, byddwch yn parhau i elwa ar fewnbwn diwydiannol mewn modiwlau ar draws pob un o'r disgyblaethau peirianneg a drwy modiwlau prosiect Ysgol gyfan.

**Yn y disgyblaethau peirianneg pensaernïol, sifil ac amgylcheddol**, mae sefydliadau blaenllaw fel Arup, Atkins, Knights Brown, Jacobs a Caukin yn rhoi mewnbwn sylweddol i addysgu.

**Yn y disgyblaethau peirianneg drydanol ac electronig**, mae amrywiaeth eang o gwmnïau yn cefnogi ein gwaith addysgu gan gynnwys Keysight, Rohde and Schwarz, IQE, National Instruments, Newport Waferfab, Cree Western Power Distribution, National Grid, Babcock International ac Invertek.

**Mae mewnbwn diwydiannol ym meysydd peirianneg fecanyddol a meddygol** o Arup, Atkins, Babcock International a mwy.

# Ein rhaglenni gradd



# Peirianneg Bensaernïol

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Bensaernïol**(MEng) Côd UCAS: **H294**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Bensaernïol** (BEng)
Côd UCAS: **H292**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Bensaernïol (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H298**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Bensaernïol (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H299**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Bensaernïol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H293**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Bensaernïol gyda Blwyddyn yn Ewrop (Ffrainc)** (MEng)
Côd UCAS: **H291**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Bensaernïol gyda Blwyddyn yn Ewrop (yr Almaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H992**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Bensaernïol gyda Blwyddyn yn Ewrop (Sbaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H990**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Bensaernïol gyda blwyddyn mewn diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H295**
Hyd: **5 mlynedd**



Mae peirianwyr pensaernïol yn cyfuno creadigrwydd pensaernïaeth â gwyddoniaeth a thechnoleg peirianneg strwythurol i ddylunio a chynhyrchu adeiladau sy'n gwella ein safon byw ac yn gwella ansawdd ein bywyd.

Mae ein graddau peirianneg bensaernïol yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o beirianneg sifil, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beirianneg strwythurol a'r amgylchedd adeiledig. Byddwch yn darganfod elfennau hanfodol peirianneg strwythurol a dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng dylunio peirianneg, gofynion pensaernïol a ffactorau amgylcheddol. Byddwch hefyd yn dysgu mwy am bensaernïaeth, peirianneg ddinesig, gwasanaethau adeiladu, technoleg adeiladu a rheoli gyda phwyslais arbennig ar waith stiwdio, prosiectau dylunio ac astudiaethau achos.

Yn ystod asesiad diweddaraf y llywodraeth o waith ymchwil, barnwyd mai Peirianneg Sifil Caerdydd (sydd hefyd yn cynnwys Peirianneg Bensaernïol) oedd y gorau yn y DU, a hi hefyd oedd y gorau yn y DU am effaith ei gwaith ymchwil (REF 2014).

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol BEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Corfforedig a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

### Cyfleoedd gyrfa

Cyflogir ein graddedigion yn y meysydd peirianneg sifil a strwythurol gyda chwmnïau ymgynghori a chontractio mawr. Maen nhw'n gweithio mewn rolau megis peiriannydd sifil neu strwythurol graddedig neu beiriannydd dylunio adeiladau.

Cyflogir graddedigion o'n cyrsiau peirianneg bensaernïol mewn cwmnïau mawr fel Arup, Atkins, Capita Symonds a Ramboll. Mae rhai wedi dewis gweithio yn y sectorau ariannol, cyfryngau a marchnata gyda chyrchfannau gan gynnwys Deloitte, PwC a Virgin.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Adeiladu Cynaliadwy a Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM).

# Peirianneg Sifil

Wedi'i achredu'n broffesiynol
Blwyddyn dramor
Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Sifil** (MEng)
Côd UCAS: **H207**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil** (BEng)
Côd UCAS: **H200**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Sifil (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H205**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **K3G1**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil gyda blwyddyn mewn diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H201**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil gyda Blwyddyn yn Ewrop (Ffrainc)** (MEng)
Côd UCAS: **H209**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil gyda Blwyddyn yn Ewrop (Yr Almaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H203**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil gyda Blwyddyn yn Ewrop (Sbaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H204**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H208**
Hyd: **5 mlynedd**




## Mae peirianwyr sifil yn cynllunio, dylunio a rheoli prosiectau adeiladu i greu a gwella'r amgylchedd ffisegol o'n cwmpas.

Mae peirianwyr sifil yn ymwneud â chynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd, meysydd awyr, dociau a phorthladdoedd, amddiffynfeydd arfordirol, systemau dyfrhau, gwasanaethau trefol hanfodol (fel y cyflenwad dŵr, draenio, a gwaredu carthion) a gwaith strwythurol, gan gynnwys adeiladau, pontydd, argaeau, cronfeydd dŵr a gorsafoedd pŵer.

Mae ein graddau peirianneg sifil yn darparu dealltwriaeth drylwyr o theori peirianneg sifil, wedi'i hategu gan gymwysiadau ymarferol trwy waith labordy ac ymchwil, cyrsiau maes a dosbarthiadau dylunio. Mae cynnwys ein cwrs wedi cael ei ddylunio gyda mewnbwn gan sefydliadau blaengar er mwyn sicrhau eich bod yn cael profiad ymarferol gan ddefnyddio offer a thechnegau masnachol cyfredol.

Mae ein rhaglen peirianneg sifil yn cynnig cwrs gradd uchel ei barch i chi yn un o'r prifysgolion gorau yn y maes hwn. Yn ystod asesiad diweddaraf y llywodraeth o waith ymchwil, barnwyd mai Peirianneg Sifil Caerdydd oedd y gorau yn y DU, a hi hefyd oedd y gorau yn y DU am effaith ei gwaith ymchwil (REF, 2014).

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol BEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Corfforedig a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

### Cyfleoedd gyrfa

Cyflogir ein graddedigion mewn ymgyngoriaethau dylunio, contractwyr adeiladu, cyfleustodau a llywodraethau lleol a chenedlaethol. Maen nhw'n gweithio mewn rolau megis peiriannydd sifil, peiriannydd safle neu beiriannydd dylunio.

Cyflogir graddedigion mewn cwmnïau ymgynghori a chontractio mawr, fel Aecom, Meinhardt Group, Morgan Sindall, ac Atkins Group. Mae rhai wedi dewis gweithio yn y sectorau ariannol, cyfryngau a phetrocemegol gyda chyrchfannau gan gynnwys Deloitte, PwC, Virgin a Shell.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Adeiladu Cynaliadwy a Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM).

# Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**
**Blwyddyn dramor**
**Lleoliad proffesiynol**

## Graddau

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol** (BEng)
côd UCAS: **H221**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol** (MEng)
Côd UCAS: **H226**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol (Rhyngwladol** (MEng)
Côd UCAS: **H230**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **T1N9**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol gyda blwyddyn mewn diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H222**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol gyda blwyddyn yn Ewrop (Ffrainc)** (MEng)
Côd UCAS: **H225**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol gyda blwyddyn yn Ewrop (yr Almaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H296**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol gyda blwyddyn yn Ewrop (Sbaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H297**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol gyda blwyddyn mewn diwydiant** (MEng)
Côd UCAS **H224**
Hyd: **5 mlynedd**



Mae peirianwyr sifil ac amgylcheddol yn creu atebion cynaliadwy ar gyfer anghenion cymdeithas yn awr ac yn y dyfodol, er enghraifft byw gydag effeithiau newid yn yr amgylchedd, neu reoli ein gwastraff a'n llygredd.

Mae peirianwyr sifil ac amgylcheddol yn mynd i'r afael â rhai o brif risgiau cymdeithasau ac economïau, megis drwy reoli gwastraff cynaladwy neu herio llygredd amgylcheddol.

Mae ein graddau peirianneg sifil ac amgylcheddol yn darparu sgiliau peirianneg dylunio a dadansoddi craidd i chi a dealltwriaeth drylwyr o ffyrdd i integreiddio atebion economaidd ac ymarferol. Byddwch yn dysgu am agweddau cyfreithiol, cymdeithasol a moesegol peirianneg, a rhoddir pwyslais pendant ar gyfrifoldeb a rheolaeth amgylcheddol.

Byddwch yn cael cyfle i ddefnyddio'r hyn rydych yn ei ddysgu mewn dosbarthiadau dylunio ymarferol, prosiectau ymchwil, dosbarthiadau labordy a chyrsiau maes. Datblygir eich dysgu hefyd drwy gyfrwng ymweliadau â safleoedd, cyflwyniadau a siaradwyr arbenigol o fyd diwydiant.

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol BEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Corfforedig a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

## Cyfleoedd gyrfa

Cyflogir ein graddedigion mewn ymgyngoriaethau, contractwyr adeiladu, cyfleustodau a llywodraethau lleol a chenedlaethol. Maen nhw'n gweithio mewn rolau fel dylunio, gweithredu a rheoli ffatrïoedd trin dŵr; rheoli amddiffynfeydd llifogydd; adfer ac ailennill tir halogedig; systemau trafnidiaeth integredig; a busnesau ymgynghori peirianneg sifil gyffredinol.

Efallai y byddwch chi'n cwrdd â nhw mewn cwmnïau blaenllaw megis VolkerWessels UK, Mott Macdonald, a Sir Robert McAlpine. Mae rhai wedi dewis gweithio yn y sectorau ariannol, cyfryngau a phetrocemegol gyda chyrchfannau gan gynnwys Deloitte, PwC, Virgin a Shell.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Adeiladu Cynaliadwy, Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) a Pheirianneg Sifil a Dŵr.

# Peirianneg Drydanol ac Electronig

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Drydanol ac Electronig** (BEng)
Côd UCAS: **H605**
Hyd: **3 blynedd**


**Peirianneg Drydanol ac Electronig** (MEng)
Côd UCAS: **H601**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Drydanol ac Electronig (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H607**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Drydanol ac Electronig (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **A7N3**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Drydanol ac Electronig gyda blwyddyn mewn diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H606**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Drydanol ac Electronig gyda blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H600**
Hyd: **5 mlynedd**



Mae peirianwyr trydanol yn delio â chyflenwad a llif pŵer. Mae peirianwyr electronig yn helpu i greu dyfeisiau electronig fel cyfrifiaduron, ffonau symudol a thechnolegau modern eraill. Mae'r ddau yn gweithio ar flaen y gad ym maes technoleg ymarferol, gan wella'r dyfeisiau a'r systemau rydym ni'n eu defnyddio bob dydd.

Mae astudio peirianneg electronig a thrydanol yn eich rhoi yng nghanol disgyblaeth fywiog a chyflym sy'n berthnasol i ddiwydiannau megis electroneg, technoleg gwybodaeth, gweithgynhyrchu, cynhyrchu a chyflenwi ynni, trafnidiaeth a chyfathrebu.

Mae ein graddau peirianneg electronig a thrydanol yn archwilio gwyddoniaeth a chymwysiadau trydan ar raddfa fach a mawr. Byddwch yn astudio technoleg gwybodaeth ac astudiaethau peirianneg proffesiynol, a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau dadansoddol, cyfrifiadol ac arbrofol, ynghyd â sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig hanfodol.

Byddwch yn gymwys i gyflwyno cais am ysgoloriaethau allanol gan Academi Bŵer y DU a Sefydliad Sgiliau Electronig y DU UKESF.

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Achredir ein rhaglenni gradd BEng gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Ymgorfforedig yn llawn a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

### Cyfleoedd gyrfa

Cyflogir ein graddedigion yn y diwydiannau electroneg, modurol, TG, telathrebu, gweithgynhyrchu, pŵer, trafnidiaeth, cyfleustodau ac adeiladu mewn rolau fel peiriannydd goleuadau, peiriannydd electroneg, peiriannydd trydanol, peiriannydd rhwydwaith a dadansoddwr systemau.

Cânt eu cyflogi mewn sefydliadau fel Tata Steel, Network Rail, Rolls Royce, UK AEA, Saudi Airlines, Collins Aerospace, a'r Grid Cenedlaethol. Mae rhai wedi dewis gweithio yn y sectorau ariannol, cyfryngau a marchnata gyda chyrchfannau gan gynnwys Chanel, PwC a Virgin.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Systemau Ynni Trydanol, Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd, Peirianneg Cyfathrebu Diwifr a Microdon ac Electroneg Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

# Peirianneg Integredig

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Integredig** (MEng)
Côd UCAS: **H113**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Integredig** (BEng)
Côd UCAS: **H110**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Integredig (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H118**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Integredig (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **5A7D**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Integredig gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H111**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Integredig gyda blwyddyn yn Ewrop (Ffrainc)** (MEng)
Côd UCAS: **H115**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Integredig gyda Blwyddyn yn Ewrop (Yr Almaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H116**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Integredig gyda Blwyddyn yn Ewrop (Sbaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H117**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Integredig gyda blwyddyn mewn diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H114**
Hyd: **5 mlynedd**



Mae angen peirianwyr proffesiynol ar lawer o gyflogwyr sydd â dealltwriaeth ehangach o'r amrywiol ddisgyblaethau a sgiliau peirianneg mewn mwy nag un maes.

Gradd amlddisgyblaethol yw peirianneg integredig, sydd wedi'i llunio o amgylch peirianneg drydanol, electronig a mecanyddol, sy'n ceisio datblygu myfyrwyr ym meysydd gweithgynhyrchu, mecatroneg, dylunio drwy gymorth cyfrifiadur ac ynni adnewyddadwy. Bydd eich gwybodaeth eang am wahanol agweddau ar beirianneg yn sicrhau y gallwch ryngweithio â pheirianwyr o'r holl ddisgyblaethau peirianneg traddodiadol mewn unrhyw amgylchedd amlddisgyblaethol.

Mae myfyrwyr yn gymwys i gyflwyno cais ar gyfer ysgoloriaethau gan Academi Bŵer y DU a Sefydliad Sgiliau Electronig y DU UKESF (mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o'r ddau gynllun).

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Achredir ein rhaglenni gradd BEng gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Ymgorfforedig yn llawn a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

## Cyfleoedd gyrfa

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Babcock International, BAE Systems, Eon Energy, AmSafe Bridport ac Arup.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Systemau Ynni Trydanol, Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd, Peirianneg Cyfathrebu Diwifr a Microdon ac Electroneg Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

# Peirianneg Fecanyddol

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Fecanyddol** (MEng)
Côd UCAS: **H302**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Fecanyddol** (BEng)
Côd UCAS: **H300**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Fecanyddol (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H309**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Fecanyddol (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **U8A6**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Fecanyddol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **H301**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Fecanyddol gyda Blwyddyn yn Ewrop (Ffrainc)** (MEng)
Côd UCAS: **H308**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Fecanyddol gyda Blwyddyn yn Ewrop (yr Almaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H303**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Fecanyddol gyda Blwyddyn yn Ewrop (Sbaen)** (MEng)
Côd UCAS: **H305**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Fecanyddol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **H307**
Hyd: **5 mlynedd**




Mae peirianwyr mecanyddol yn dylunio, datblygu, adeiladu, profi, gosod a chynnal pob math o ddyfeisiau mecanyddol, offer, peiriannau a pheiriannau.

Mae peirianneg fecanyddol yn ddisgyblaeth eang ei chwmpas sy'n cynnwys dylunio, adeiladu a gweithredu amrywiaeth enfawr o nwyddau a phrosesau. Mae Peirianwyr Mecanyddol yn cyfuno dychymyg a thechnoleg fodern i gynnig datrysiadau arloesol er mwyn bodloni gofynion cymhleth cymdeithas a'r diwydiant.

Mae ein graddau peirianneg fecanyddol yn archwilio meysydd fel thermodynameg, dynameg peirianneg, mecaneg hylif, mecaneg solet, a rheoli busnes. Byddwch hefyd yn ennill sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd fel cyfathrebu, arbrofi, cyfrifiadura, gwaith labordy a dylunio.

Byddwch yn cael cyfle i ymuno â Rasio Caerdydd a chymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, datblygu, adeiladu a phrofi ein car rasio Fformiwla Myfyrwyr.

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianneg Mecanyddol a'r Sefydliad Ynni ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Achredir ein rhaglenni gradd BEng gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol a'r Sefydliad Ynni ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Ymgorfforedig yn llawn a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

### Cyfleoedd gyrfa

Mae nifer fawr o raddedigion peirianneg fecanyddol yn gweithio ym maes dylunio cynhyrchion i ddiwydiannau modurol, awyrenegol, cyfathrebiadau ac ynni. Caiff rhai eu cyflogi ym maes peirianneg feddygol, eraill yn teithio'r byd ar ran y diwydiant petrocemegol, a rhai'n ymwneud â meysydd datblygu, cynhyrchu a rheoli cyffredinol.

Os hoffech ymgymryd ag astudiaeth bellach ar ôl graddio, mae digon o gyfleoedd ym Mhrifysgol Caerdydd ar lefel Meistr yn y Gwyddorau (MSc) a Doethur mewn Athroniaeth (PhD) mewn pynciau fel Uwch-Beirianneg Fecanyddol, Technoleg Cyfathrebu ac Entrepreneuriaeth a Pheirianneg Gweithgynhyrchu, Arloesedd a Rheoli.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Vantage Power, General Electric, BP, Ricardo, a Triumph Motorcycles.

Mae rhai yn dewis defnyddio'u graddau fel cymhwyster i'w galluogi i weithio mewn disgyblaethau eraill. Mae'r rhai hynny sydd wedi dilyn y llwybr hwn fel arfer yn gweithio yn y Lluoedd, y sector ariannol, y proffesiwn cyfreithiol, cyfrifyddiaeth siartredig neu gyfrifiadura.

# Peirianneg Feddygol

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol

## Graddau

**Peirianneg Feddygol** (MEng)
Côd UCAS: **H1BV**
Hyd: **4 blynedd**


**Peirianneg Feddygol** (BEng)
Côd UCAS: **H1B8**
Hyd: **3 blynedd**

**Peirianneg Feddygol (Rhyngwladol)** (MEng)
Côd UCAS: **H2BV**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Feddygol (Rhyngwladol) gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **P2R4**
Hyd: **5 mlynedd**

**Peirianneg Feddygol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (BEng)
Côd UCAS: **BH99**
Hyd: **4 blynedd**

**Peirianneg Feddygol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant** (MEng)
Côd UCAS: **HB99**
Hyd: **5 mlynedd**



Mae ein graddau peirianneg feddygol wedi'u cynllunio i apelio at fyfyrwyr sy'n dymuno cyfuno hyfforddiant peirianegol clasurol â chymhwysiad meddygol.

Ein nod yw cynhyrchu peiriannydd hynod fedrus a allai ddilyn gyrfa naill ai mewn meysydd clinigol/biobeirianegol neu feysydd peirianegol y tu allan i feddygaeth.

Byddwch yn caffael hanfodion mewn ystod eang o ddisgyblaethau peirianneg, gan gynnwys peirianneg fecanyddol, drydanol ac electronig, ac anatomeg a ffisioleg. Fe'ch cyflwynir i fodiwlau sydd wedi'u cynllunio i gymhwyso egwyddorion peirianneg i'r maes meddygol, megis biofecaneg, deunyddiau a gweithgynhyrchu. Byddwch yn astudio peirianneg glinigol a biofecaneg ac yn defnyddio sgiliau peirianneg sylfaenol i ddatrys problemau peirianneg feddygol, yn enwedig yn eich prosiect.

Cyflwynir gwaith addysgu gan dîm ymroddedig o staff academaidd sy'n gwneud gwaith ymchwil, a bydd rhai darlithoedd hefyd yn cael eu cyflwyno gan gydweithwyr o Ysgol y Biowyddorau a'r Ysgol Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

Byddwch yn cael cyfle i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol o ddarparwyr gofal iechyd megis Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r Adran Ffiseg Feddygol.

Mae cynnwys ein cwrs yn cael ei lywio gan gydweithrediad diwydiannol gyda chwmnïau fel Biomet, Simpleware ac Arthritis Research UK. Mae llawer o'r darlithwyr gwadd yn gysylltiedig â darparwyr gofal iechyd, fel Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r Adran Ffiseg Feddygol.

Mae ein rhaglenni gradd MEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianneg Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Achredir y cwrs gan y Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Ymgorfforedig yn llawn a bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestriad fel Peiriannydd Siartredig yn rhannol.

### Cyfleoedd gyrfa

Gall graddedigion mewn peirianneg feddygol elwa ar gyfleoedd gwaith yn y sector peirianneg feddygol a'r sector peirianneg fecanyddol ehangach.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Biomet, Johnson and Johnson, Huntleigh Medical, a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gall peirianwyr meddygol hefyd fynd ar ôl gyrfa yn y sector gofal iechyd. Mae ein graddedigion hefyd yn cael lleoedd yn rheolaidd yng nghynllun hyfforddi Peiriannydd Clinigol/Gwyddonydd cystadleuol iawn (ewch i www.ipem.org.uk i gael rhagor o fanylion).

Mae cyfleoedd di-ri hefyd ar gael ym mhob cwr o'r byd i wneud astudiaethau ôl-radd, ac mae llawer o raddedigion wedi ennill Doethur mewn Athroniaeth (PhD). Mae myfyrwyr hefyd wedi mynd am arbenigedd pellach drwy astudio'r cymhwyster Meistr yn y Gwyddorau (MSc).

Mae galw mawr am beirianwyr graddedig mewn nifer o feysydd anghysylltiedig fel cyfrifyddiaeth, cyllid, llywodraeth ac addysg, felly i'r rhai hynny sy'n dymuno dilyn llwybr gyrfaol i ffwrdd o beirianneg, mae amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous eraill ar gael.

# Ymchwil sy'n cael effaith

## Ni yw un o'r prifysgolion gorau yn y DU ar gyfer ymchwil peirianneg a barnwyd bod 97% o'n hymchwil a gyflwynwyd yn rhyngwladol ragorol neu'n arwain y byd (REF 2014).

### Pam bod ymchwil y brifysgol yn bwysig i chi?

Mae'n golygu bod gan ein staff addysgu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn cymryd rhan weithredol yn eu maes. Mae ein hymchwil yn llywio cynllun ein cwrs ac mae ein cynllun ni yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a chysylltiadau masnachol, fel bod ein graddedigion yn barod i lwyddo.

Mae ehangder ein hymchwil yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o fodiwlau a addysgir sy'n cael eu cynnig i'n myfyrwyr israddedig, a all gymryd rhan drwy ddosbarthiadau ymarferol a'u prosiectau ymchwil eu hunain yn y labordy ac yn y maes.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf, daeth gwaith ymchwil yr Ysgol mewn Peirianneg Sifil yn gyntaf yn y DU am ei ansawdd, a daeth gwaith ymchwil mewn Peirianneg Gyffredinol (sy'n cynnwys disgyblaethau eraill mewn peirianneg) yn seithfed. Barnwyd hefyd mai ein gwaith ymchwil ni yn y categorïau Peirianneg Sifil a Pheirianneg Gyffredinol oedd y gorau yn y DU o ran ei effaith.

Mae'r Ysgol Peirianneg yn gartref i bymtheg o ganolfannau ymchwil sefydledig sy'n canolbwyntio ar gymwysiadau ymarferol ar draws maes peirianneg. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos rhywfaint o'r ymchwil a gynhelir yn yr Ysgol a'r manteision mae'n eu cynnig i'r gymdeithas a'r economi yn lleol ac yn fyd-eang.

### Ymchwil yn ailfeddwl gwaredu gwastraff niwclear

Mae ein efelychiadau cyfrifiadurol arloesol yn helpu i gynllunio ffyrdd mwy diogel o storio gwastraff niwclear.

Mae gwaredu gwastraff niwclear lefel uchel yn ddiogel yn fater byd-eang. Er bod cyfleusterau storio dros dro yn bodoli o gwmpas y byd, gwnaethom geisio datblygu datrysiad hir dymor a gydnabuwyd gan lywodraethau amlwladol ac awdurdodau niwclear.

Datblygodd ymchwilwyr o'n Canolfan Ymchwil Geoamgylcheddol, gyda chefnogaeth rhaglen EURATOM y Comisiwn Ewropeaidd, fodel i ddeall sut mae rhwystrau a ddefnyddir i waredu gwastraff niwclear yn perfformio.

Datblygodd y tîm fodel cyfrifiadurol o'r enw COMPASS i efelychu ymddygiad ystorfa gwastraff niwclear dros amser a dangos sut mae rhwystrau ystorfa niwclear yn perfformio. Darparodd y model cyfrifiadurol ragfynegiadau arloesol o ymddygiad a gwydnwch hirdymor rhwystrau a gynlluniwyd.

Mae'r prosiect wedi cael effaith sylweddol ar gynllunio peirianneg, amodau amgylcheddol, buddsoddiad economaidd a pholisi cyhoeddus. Defnyddiwyd y feddalwedd gan Awdurdodau Gwaredu Gwastraff Niwclear Rhyngwladol, ac mae gwaith GRC wedi arwain at y gwaith o gynllunio ac adeiladu ystorfeydd newydd yn Sweden a'r Ffindir.

O ganlyniad uniongyrchol i'r ymchwil, gwnaed buddsoddiad o £200M rhwng 2008a 2013 gan SKB, y Cwmni Rheoli Gwastraff a Thanwydd Niwclear o Sweden. Mae'r swm hwn yn llawer llai na'r draul o barhau i storio gwastraff niwclear lefel uchel (er enghraifft, yn Sellafield yn y DU, mae hyn yn cyfateb i £1.65B y flwyddyn, yn ogystal â'r gost o waith glanhau a chynnal a chadw, sy'n costio £67.5B.

Mae'r gweithgareddau a alluogwyd gan yr ymchwil, a amlygwyd gan swm y buddsoddiad, yn gamau mawr tuag at ateb hirdymor parhaol i wastraff niwclear lefel uchel.

### Achub bywydau a diogelu dŵr

Rydym yn datblygu modelau cywir a dibynadwy i ddiogelu pobl yn erbyn risgiau dŵr byd-eang.

Mae Arsyllfa Byd NASA yn amcangyfrif bod dau biliwn o bobl yn debygol o fod yn agored i lifogydd erbyn 2050. Roedd ein ymchwilwyr yn cydnabod yr angen am fodelau mwy cywir i ragweld y risg o lifogydd a lefelau ansawdd dŵr ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau eithafol.

Mae'r ymchwil hefyd wedi'i llywio gan newidiadau i gyfreithia cynllunio sy'n ymwneud â gorlifdiroedd, mwy o ychwanegiadau o ran yswiriant llifogydd, galwadau cynyddol am ansawdd dŵr gwell mewn afonydd, aberoedd a basnau arfordirol.



Mae ymchwilwyr yn y Ganolfan Ymchwil Hydroamgylcheddol wedi integreiddio a mireinio modelau presennol i roi datrysiadau mwy cywir ar gyfer argae sy'n torri a llifau arglawdd sydd wedi torri. Fe wnaeth y gwelliannau hefyd arwain at y gallu i efelychu effeithiau llifogydd mewn amgylcheddau trefol, trin adeiladau fel anhydraidd yn hytrach na solet ac atgynhyrchu effaith y llifogydd ar orlifdiroedd adeiledig.

Mae effeithiau'r ymchwil yn amlygu manteision amgylcheddol, iechyd, economaidd a diwydiannol. Fe'i defnyddir gan sefydliadau mawr y byd ar brosiectau mawr ac ar gyfer cynllunio lliniaru yn erbyn risgiau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gysylltiedig â llifogydd ac ansawdd dŵr.

Yn Rwmania, defnyddiwyd y modelau i fapio perygl llifogydd dros 700km o'r Afon Siret a'i brif allafonydd, ar ôl digwyddiad mawr yn 2005 a lle bu marwolaethau. Yn Ynysoedd y Philippinau, mae'r ymchwil yn helpu i fapio sefyllfaoedd posibl o ran perygl llifogydd ledled y wlad.

Defnyddiwyd y modelau hefyd i ddangos hyfywedd Dinas Fôr Sabah Al Ahmad - datblygiad mawr ar ffurf dyfrffordd arfordirol yn Kuwait.

# Prifddinas



Mae Caerdydd yn ddinas fach gyda chymeriad enfawr. Mae prifddinas y wlad yn swatio rhwng arfordir garw a golygfeydd mynyddig godidog Cymru, ac mae'n brifddinas diwylliant sy'n cyfuno hyfrydwch hanesyddol â mwynderau cosmopolitan.

Mae'n cynnig amrywiaeth ddi-ben-draw o weithgareddau a gallwch ddysgu am hanes cyfoethog Caerdydd yng Nghastell Caerdydd ar ôl cerdded drwy ei strydoedd coblog. Yna, gallwch ymgolli yn yr awyrgylch wrth i'r torfeydd lifo o Stadiwm Principality ar ôl un o blith llawer o ddigwyddiadau chwaraeon a gynhelir yno drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r sîn fwyd gyfoethog ac annibynnol wrth wraidd y ddinas. Gyda rhywbeth at ddant pawb gallwch fwynhau bwydydd rhagorol, danteithion a wnaed o blanhigyn a mathau egsotig o fwyd o bron pob cornel o'r byd, heb anghofio'r pice ar y maen i bwdin!

Cymru yw gwlad y gân, ac mae Caerdydd yn sicr yn cyfrannu'n frwd at yr etifeddiaeth hon. Mae cerddoriaeth yn llifo drwy wythiennau'r ddinas hon, o'r siop recordiau hynaf yn y byd, sef Spillers Records, sydd wedi'i lleoli yn Arcêd Morgan, i leoliadau mwy cyfoes a chartrefol sy'n rhoi llwyfan i rai o dalentau cerddorol newydd mwyaf cyffrous y byd.

Er bod eich rhestr o bethau i'w gwneud yng Nghaerdydd efallai'n enfawr, cofiwch neilltuo amser i fynd i'r Amgueddfa Genedlaethol sy'n rhywle rhyfeddol. Peidiwch â cholli'r cyfle hefyd i fynd i Ganolfan eiconig Mileniwm Cymru yn lleoliad delfrydol Bae Caerdydd.

Mae Caerdydd, â'i phersonoliaeth fyrlymus, yn ddinas ddelfrydol i fyfyrwyr. Mae'n cynnig cyfres ddiddiwedd o gyfleoedd adloniant ac yn parhau'n rhad ac yn hawdd mynd o'i chwmpas.

Mae'r canolfannau siopa modern, yr arcedau esthetig, y parciau gwyrdd godidog a'r bywyd nos sy'n ffynnu yn atyniadau gwych i ddod i fyw yng Nghaerdydd, er y byddwch bob amser yn dod o hyd i'ch ffordd yn ôl i Undeb y Myfyrwyr, sef gwir gartref sîn y myfyrwyr yn y ddinas.

"Dim ond ers 1955 y mae Caerdydd wedi bod yn brifddinas Cymru ac ers y mileniwm mae'r ddinas wedi esblygu'n sylweddol o dref fawr i ddinas wirioneddol ryngwladol, gyda datblygiadau enfawr yn y canol, yn ogystal â'i glannau wedi'u hadnewyddu. Gydag enw am fod yn lle i loddesta, ynghyd â llawer o atyniadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf, mae'n un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU."

**Rough Guide 2020**

# Prifysgol flaenllaw

Rhan o **RUSSELL GROUP**



"Mae Prifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch ar raddfa leol a byd-eang."

**The Telegraph, 2018**

## Mae ein myfyrwyr yn dysgu gan ymchwilwyr blaenllaw mewn dros 300 o gyrsiau ar draws y Brifysgol. Fel unig sefydliad Grŵp Russell yng Nghymru, rydym wedi ennill enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, a adeiladwyd ar ein hanes o gyflawni er 1883.

Mae oddeutu 5,500 o fyfyrwyr israddedig newydd yn ymgartrefu ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn. Er bod cryn gystadlu am leoedd, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn brifysgol gynhwysol ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb sy'n dymuno astudio gyda ni.

Rydym yn brifysgol fyd-eang sydd â thros 7,900 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 100 o wledydd, a chroesawn geisiadau gan bawb, beth bynnag eu cefndir.

### Cyfleusterau a datblygu

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein gwasanaethau, ac mae gennym labordai, darlithfeydd, llyfrgelloedd a chyfleusterau cyfrifiadura newydd sy'n llawn cyfarpar, i enwi rhai yn unig, gyda datblygiadau mwy cyffrous yn mynd rhagddynt yn barhaus.

Mae ein cyfrifoldebau o ran yr amgylchedd a diogelwch yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn hyrwyddo ein Polisi Ynni, Dŵr a Gwastraff cynhwysfawr. Mae'r polisi eisoes yn gwneud arbedion gwych o ran y defnydd o ynni ac yn ein helpu ni i wneud ein rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

### Cyfleoedd Byd-eang

Mae gennym bartneriaethau â mwy na 300 o sefydliadau blaenllaw ar draws y byd, a bydd ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu chi i gael profiad rhyngwladol gwerthfawr drwy astudio, gweithio neu wirfoddoli.

### Eich cefnogi chi

Mae ein canolfannau cefnogi a lles myfyrwyr yn cynnig amrywiaeth sylweddol o wasanaethau sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhad ac am ddim, yn ddiduedd, yn anfeirniadol ac yn gyfrinachol, a'u nod yw eich helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar eich bywyd fel myfyriwr a'ch cefnogi chi wrth i chi astudio.

Rydym hefyd yn cael ein hystyried yn un o'r prifysgolion gorau o ran cefnogi myfyrwyr LHDT+ ac rydym yn falch o fod ymhlith y rhai uchaf ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithleoedd Stonewall.

Stonewall

### Taith rithwir o amgylch y campws

Dysgwch fwy am y Brifysgol ac am ddinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein yma:

**virtualtour.cardiff.ac.uk/cy**

# Byw yng Nghaerdydd





"Mae gan Gaerdydd undeb myfyrwyr sydd ymysg y gorau yn y DU o ran maint, safon a gweithgarwch. Mae'r cyfleusterau gwych sydd yno yn cynnwys Y Plas, clwb nos sydd â lle i 2,150 o bobl, a'r Neuadd Fawr, sy'n lleoliad o bwys ar gyfer cyngherddau."

**Complete University Guide, 2019**

Wrth galon profiad myfyrwyr Caerdydd

Caerdydd yw'r lle delfrydol i fod yn fyfyriwr. Mae'n adlewyrchu'r bwrlwm o weithgarwch y mae dinas fawr yn ei gynnig ond mewn lleoliad personol a chlos sydd â chymeriad diddiwedd. Gallwch fwynhau'r awyrgylch, profi'r diwylliant a mynd ati i gymryd rhan yn y llu o weithgareddau sydd ar gael yn ein dinas: eich cartref newydd chi.

## Gwarant o lety

Os ydych yn derbyn cynnig lle gan Brifysgol Caerdydd ar sail bendant, cewch warant o ystafell sengl yn un o breswylfeydd y Brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf, a byddwch yn byw gyda myfyrwyr israddedig eraill yn eu blwyddyn gyntaf.

Bydd dyddiadau preswyl eich llety penodol yn cael eu cadarnhau yn eich Cynnig Llety.

## Bywyd Preswyl

Byddwch yn gallu defnyddio'r gwasanaeth anhygoel a gynigir gan y Tîm Bywyd Preswyl wrth aros yn llety myfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn gweithio'n ddiflino i wella eich profiad fel myfyriwr.

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cefnogi a Lles Myfyrwyr, y Swyddfa Preswylfeydd ac Undeb y Myfyrwyr, bydd Bywyd Preswyl yn eich croesawu chi i Gaerdydd ac yn eich helpu chi i ymgartrefu'n ddiffwdan yn y Brifysgol.

Maent hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o gymuned drwy ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol, yn ogystal â chefnogaeth ymarferol.

## Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhan greiddiol o brofiad myfyrwyr yng Nghaerdydd. Dyma ran annibynnol o'r Brifysgol a arweinir gan y myfyrwyr sy'n benodol ar gyfer sicrhau eich bod yn cael yr amser gorau posibl gyda ni.

Mae Undeb y Myfyrwyr, a adeiladwyd ar sail cynhwysiant, amrywiaeth, datblygiad personol a chyfeillgarwch, yn cynnal ystod o weithgareddau a gwasanaethau i helpu i wella eich profiad ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys cyngor, hyfforddiant, datblygu sgiliau, adloniant, cyfleoedd i wirfoddoli a chyflogaeth yn ystod eich amser yng Nghaerdydd yn ogystal â'ch paratoi chi at yrfa ar ôl y Brifysgol.

### Rhagor o wybodaeth . . .

#### Llety

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: **www.cardiff.ac.uk/residences**

Gallwch hefyd wylio ein ffilm preswylfeydd ar-lein ar: **www.youtube.com/ watch?v=hxzX-dYLfB8**

#### Undeb y Myfyrwyr

**facebook.com/cardiffstudents**

**snapchat.com/add/cardiffstudents**

**instagram.com/cardiffstudents**

**@cardiffstudents**

**www.youtube.com/cardiffstudents**

# Ceisiadau




Er mwyn i ni ystyried eich derbyn i un o'n rhaglenni gradd, dylech ddefnyddio cyfleuster 'UCAS Apply' i gyflwyno cais ar-lein ar wefan UCAS.

I ddefnyddio'r cyfleuster hwn, bydd angen i chi fewngofnodi i **www.ucas.ac.uk/apply**

Bydd y wefan yn rhoi gwybodaeth i chi am sut i gyflwyno cais ac yn egluro'r weithdrefn. Dylid cwblhau ceisiadau erbyn 15 Ionawr.

Ar ôl i ni gael eich cais a'i ystyried, efallai y byddwn yn eich gwahodd i ymweld â'r Ysgol rywbryd rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill. Ni fydd cyfweliad ffurfiol, ond bydd taith dywysedig o gwmpas yr Ysgol a'r ddinas. Byddwch yn cwrdd â myfyrwyr a staff, gan roi cyfle i ni ddod i wybod mwy amdanoch chi a'ch galluogi chi i ddod i wybod sut beth yw bywyd fel myfyriwr peirianneg yng Nghaerdydd.

Y nifer arferol o leoedd sydd ar gael ar bob cwrs yn y flwyddyn gyntaf: **410**

Nifer y ceisiadau fel arfer: **2,500**

## Gofynion mynediad

I weld manylion y gofynion mynediad a'r cynigion nodweddiadol diweddaraf ewch i:

**www.cardiff.ac.uk/ugcourses**

Arweiniad yn unig yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** BEng: AAB - BBB, MEng: AAA-AAB. Rhaid cynnwys Mathemateg Safon Uwch.

**DIPLOMA UWCH BAGLORIAETH CYMRU (WBA):** Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod), ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y FAGLORIAETH RYNGWLADOL:** Ar gyfer BEng, mae angen sgôr cyffredinol o 31-34 neu 665-666 ar lefel uwch (gan gynnwys Mathemateg Lefel Uwch). Yn MEng, mae angen sgôr cyffredinol o 31-34 neu 665-666 ar lefel uwch (gan gynnwys Mathemateg Lefel Uwch).

**BTEC:** DD mewn Diploma BTEC mewn unrhyw bwnc a Gradd A neu B ym Mathemateg Safon Uwch yn ddibynnol ar y cwrs.

**Arall:** Croesewir ceisiadau gan y rhai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen a'r rhai a all fod â phrofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Pynciau penodol**
Mathemateg Safon Uwch (neu gyfwerth). Hefyd gradd C/4 neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg TGAU (neu gyfwerth). Mae gofyn hefyd i ymgeiswyr y rhaglenni 'Blwyddyn yn Ffrainc/yr Almaen/Sbaen' fod â gradd C/4 neu uwch yn yr iaith briodol ar lefel TGAU (neu gymhwyster cyfwerth).

**Blwyddyn sylfaen**
Os ydych wedi pasio TGAU mewn Mathemateg ac wedi cael marciau pasio da ar eich Safon Uwch mewn pynciau nad ydynt yn fathemategol, byddai'r Flwyddyn Sylfaen yn llwybr delfrydol i chi fynd i mewn i beirianneg. Os hoffech chi gyflwyno cais i wneud y flwyddyn sylfaen, rhowch H101 yn adran ddewisiadau eich cais UCAS, ynghyd â chod rhaglen y radd y dymunwch ei dilyn ar ôl y flwyddyn sylfaen. Rhaglen radd integredig yw hon (sef y flwyddyn sylfaen ynghyd â rhaglen radd o'ch dewis).

# Ceisiadau *parhad*



## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau. Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu ac sy'n seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Rydym yn cydnabod hawl pob person i gael ei drin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg credo), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:**https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity**

## Gohirio mynediad

Nid oes gan yr Ysgol wrthwynebiad i'r posibilrwydd i chi ohirio eich mynediad cyhyd â'ch bod yn treulio'r flwyddyn berthnasol mewn ffordd gadarnhaol a buddiol. Byddwch chi'n gwneud eich cais drwy UCAS yn y ffordd arferol, ond rhaid i'r cais i UCAS ddangos y flwyddyn y bwriadwch ddod i'r brifysgol.

## Diwrnodau Agored

Mae'r Brifysgol yn cynnal Diwrnodau Agored drwy gydol y flwyddyn i roi cyfle i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais i Brifysgol Caerdydd gael rhagor o wybodaeth am fywyd yn y brifysgol a gweld yr hyn rydym yn ei gynnig. Os ydych yn cyflwyno cais ac yn cael cynnig lle, cewch eich gwahodd i gwrdd â ni yn niwrnodau agored arbennig yr Ysgol.

Rydym yn eich annog yn gryf i ymuno â ni wrth wneud y penderfyniad pwysig hwnnw. Cewch y cyfle i glywed mwy am ein graddau, cyfarfod â staff yn ogystal â chael cyfle i siarad â myfyrwyr presennol a chael blas ar ein prifddinas gosmopolitan.

## Cefnogi myfyrwyr

P'un a ydych yn defnyddio'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr neu beidio, mae'n galonogol gwybod eu bod ar gael pe bai eu hangen nhw arnoch.

Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr, ond mae gennym amrywiaeth o wasanaethau os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch. Megis:

- Cefnogaeth Anabledd a Dyslecsia
  - E-bost: **disability@caerdydd.ac.uk**
    Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
  - E-bost: **dyslexia@caerdydd.ac.uk**
    Ffôn: **+44(0) 29 2087 4844**
- Y Gwasanaeth Lles a Chwnsela
  E-bost: **wellbeingandcounselling@caerdydd.ac.uk**
  Ffôn: **+44 (0)29 2087 4966**
- Cymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol
  E-bost: **iss@caerdydd.ac.uk**
  Ffôn: **+44 (0)29 2087 6009**
- Cynllun Mentor Myfyrwyr
  **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support**

## Ffioedd dysgu a chymorth ariannol

Mae'r Brifysgol yn codi ffi flynyddol sy'n talu am yr holl ffioedd dysgu, cofrestru ac arholi heblaw ffi ailsefyll arholiadau gan fyfyrwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Sylwch fod y ffioedd am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol yn ychwanegol at hynny.

Gweler y wefan ganlynol am ragor o wybodaeth: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees**

### Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Ewch i'r wefan ganlynol i gael rhagor o wybodaeth: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/funding/scholarships**




## Sut i ddod o hyd i'r Ysgol

Gallwch ddod o hyd i ni yn Adeiladau'r Frenhines ar Heol Casnewydd (y fynedfa drwy'r Parêd). Rydym wedi ein lleoli'n gyfleus ar bwys canol y ddinas, neuaddau preswyl y myfyrwyr, ac ar bwys holl brif adeiladau'r Brifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr.

## Allwedd

- Ysgol Peirianneg
- Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
- Preswylfeydd myfyrwyr

## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2021, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www. caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn, gellir ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell gyrfaoedd i eraill ei ddefnyddio.

Diolch yn fawr.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**
Ebost: **RobertsL9@caerdydd.ac.uk**

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

I gael gwybod rhagor o wybodaeth am yr Ysgol Peirianneg ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/peirianneg**

## Cysylltu â ni


Ffôn: **029 2087 9999**
E-bost: **enquiry@caerdydd.ac.uk**

**Ysgol Peirianneg**
Prifysgol Caerdydd
Adeiladau'r Frenhines
The Parade
Caerdydd CF24 3AA


## Cadw mewn cysylltiad

cardiffuniversity
schoolofengineering

@EngineeringCU

## Bywyd myfyrwyr

Oes gennych chi gwestiynau am fywyd myfyrwyr?
Cewch atebion yn:

**http://blogs.cardiff.ac.uk/insiders/?lang=cy**

Hoffech chi gael gwybod rhagor am fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd? Mae ein myfyrwyr sy'n ysgrifennu blogiau yn cofnodi eu profiadau ac yn fodlon ateb eich cwestiynau.

Myfyrwyr go iawn ydynt, sy'n astudio amrywiaeth o gyrsiau. Maent yma i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd. Sut beth yw diwrnod arferol? Pa glybiau a chymdeithasau sydd yno? Ydy'r sîn gerddorol yng Nghaerdydd o unrhyw werth? Gall fod am bron unrhyw beth.

ENGIN/05/21

